**ATODIAD A**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd GwE yn Gyd-bwyllgor gan 6 awdurdod lleol gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried a yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei dylunio i alluogi GwE i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu perthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

### 3.1 Aelodaeth

Mae'r Awdurdodau wedi dod i gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau Cysylltiedig.

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 1 aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae'r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawl pleidleisio

Mae 1 cynrychiolydd o'r Esgobaeth, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac 1 Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais.

### 3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cynghorau wedi arwyddo Cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau bob un mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE.

### 3.3 Egwyddorion

Trwy arwyddo'r Cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

  Mewn perthynas â'r cytundeb bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio'n llwyddiannus;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

  Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth defnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;

- Perthnasau Effeithiol

  Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol i gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

Mae'r Cynghorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

  Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

  Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cynghorau eraill eu bod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; ac

- Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion

  Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cynghorau eraill.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae GwE yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen llywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Ym mis Ionawr 2015, cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn. Diben yr adolygiad oedd cael darlun cynnar o gynnydd o ran cyflawni gwelliant ysgol trwy gyfrwng consortia addysgol rhanbarthol. Cyhoeddwyd adroddiad ar eu canfyddiadau ym mis Mehefin 2015.

(http://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gwella-ysgolion-trwy-gonsortia-addysg-rhanbarthol-mehefin-2015?_ga=1.27852924.1969097810.1426539597 / http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/sicrhau-gwelliannau-yn-y-cymorth-i-ysgolion-trwy-gonsortia-addysg-rhanbarthol-—-darlun)

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r ymateb i'r canfyddiadau i'r Cyd-bwyllgor ar 15 Gorffennaf 2015**.**

**Amcanion**
Mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth, dyddiedig Mawrth 2012, gyda'r achos busnes yn dangos tystiolaeth bod amcanion clir wedi eu sefydlu, eu bod yn SMART a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd yn ei le ar gyfer y gwasanaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn sicrhau bod rhaglenni gwaith priodol yn eu lle a bod adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd.

**Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau**
Mae Cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu, gydag aelodaeth briodol.

Gwelwyd bod strwythur trefniadaethol clir ar gyfer y Gwasanaeth, ond yn dilyn derbyn y model cenedlaethol newydd bydd newidiadau i'r strwythur yn y dyfodol oherwydd bod newidiadau mewn disgwyliadau ar ran y Gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau, ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor a'u hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi'i nodi yn y Cytundeb.

O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bu strwythur llywodraethu GwE yn destun adolygiad. Mae hyn wedi golygu creu Bwrdd Cynghori a Bwrdd Rheoli ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae elfennau o'r strwythur eisoes ar waith, a bydd yn cael ei fabwysiadu yn llawn pan gaiff ei gymeradwyo gan Weithredwyr pob Partner, a bydd yn arwain at Gytundeb Rhyngawdurdod diwygiedig.

**Arweinyddiaeth**
Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 15/07/15
- 23/09/15
- 12/11/15
- 27/01/16
- 24/02/16

//
**Rheolaeth Risg**
Mae cofrestr risg GwE yn cael ei diweddaru yn gyson. Mae perthnasedd y gofrestr risg yn cael ei gadw dan adolygiad.

**Systemau Rheoli Perfformiad**

Yn unol â'r cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2014/15 i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfod ar 12/11/15

**Anghenion Defnyddiwr a Chwynion**

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn gwyno Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2015/16 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Yn ogystal, mae'n bosibl i'r ysgolion roi adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor yn ogystal â'u herio. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd a chynradd y 6 Awdurdod yn aelodau o'r Grŵp Defnyddwyr:

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo'r hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Mae'r grŵp wedi cyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn:
  - 05/05/15
  - 09/07/15
  - 29/10/15
  - 01/12/15
  - 01/03/16
- Mae'r grŵp yn cynnwys:
  - 6 cynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
  - 6 cynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
  - 1 cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
  - Llywodraethwyr Ysgol - 1 cynrychiolydd fesul Cyngor.

**Polisïau Corfforaethol**

Ar ddyddiad y fantolen, roedd Adnoddau Dynol, GwE a'r Undebau yn dal i adolygu'r polisïau corfforaethol.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan GwE, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

**Fel ymateb i'r Model Cenedlaethol, mae newidiadau wedi eu weithredu ac maent yn y broses o'u ffurfioli oddi fewn yr Cytundeb Rhwng Awdurdodau diwygiedig.**

## Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw GwE o'r farn bod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ym mis Ionawr 2015, cyflwynwyd yr adroddiad a'r ymateb i'r canfyddiadau i'r Cyd-bwyllgor ar 15 Gorffennaf 2015**.**

http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/9a933d38-d0d4-4aa3-be68-c826654f984d.pdf

Adroddwyd ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion i'r Cydbwyllgor ar 12 Tachwedd 2015.

http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/ed4e01d6-0831-472b-9dec-2d22479a9a9a.pdf

**Rhan 6: BARN**

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd y gwaith ar y newidiadau i strwythur llywodraethu GwE fel ymateb i'r Model Cenedlaethol yn cael ei gwblhau.

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol GwE** | **Cadeirydd GwE** |
| **Dyddiad :** ______________________________ | **Dyddiad:**______________________________ |
| HUW FOSTER EVANS | CYNGHORYDD ERYL WILLIAMS |
| RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE | CYNGOR SIR DDINBYCH |